**4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion Pwyllgor a gynhaliwyd ar 6 Medi 2019 fel y rhai cywir.

**5. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL (AMB)**

Cyflwyniad gan Rebeca Jones ar AMB y Cynllun Datblygu ar y Cyd. Amlinellodd Rebeca bwrpas yr AMB ac eglurodd bod yr AMB yn cynnwys 69 o ddangosyddion sydd yn rhoi trosolwg o berfformiad y cynllun. Darparwyd dadansoddiad o berfformiad y dangosyddion ac amlygir unrhyw weithred a godwyd yn dilyn y dadansoddiad.

Fel rhan o'r adroddiad fe gyflwynodd Rebeca sylwadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar yr AMB a gafodd ei gyflwyno yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y 26 Medi 2019.

Materion a godwyd:

- Cafodd trafodaeth am 1 ddangosydd sydd wedi cael ei farcio yn goch, sef caniatáu trosi uned i dŷ mewn parth perygl llifogydd.
- Adnabyddodd cynghorwr wall yn ambell i air Cymraeg yn y ddogfen.
- Gofynnir am ddadansoddiad o apeliadau dros gyfnod y cynllun hyd yn hyn.
- Cododd cwestiwn am gyfnod caniatâd cynllunio Wylfa Newydd a faint o arian cyhoeddus sydd wedi ei wario ar ddatblygiad arfaethedig Wylfa Newydd a'i ddatblygiadau cysylltiedig hyd yn hyn.

Ymateb:

- Cytuno i newid y Gymraeg
- Cytuno i yrru tabl sydd wedi ei greu yn rhoi trosolwg/dadansoddiad o'r apeliadau
- Eglurodd os bydd Wylfa Newydd yn cael caniatâd bydd y cyfnod yr un peth ac unrhyw ganiatâd arall. O ran faint o arian sydd wedi ei wario nid ydy hyn yn berthnasol i'r adroddiad sy'n cael ei gyflwyno.

**<u>Penderfyniad</u> – Derbyn yr argymhelliad i dderbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol.**

**6. ARGYMHELLION PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU – CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG**

Cyflwyniad gan Gareth Jones yn cynnig ymateb i'r argymhellion yn deillio allan o adroddiad yr ymchwiliad Craffu ar Gynllunio a'r Iaith Cymraeg a gafodd ei gyflwyno yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y 4 Gorffennaf 2019. Rhoddwyd cefndir i'r ymchwiliad craffu ac eglurodd Gareth fod y Pwyllgor Craffu Cymunedau hefo 5 argymhelliad ychwanegol i'w roi i'r Pwyllgor Polisi ar y Cyd.

Materion a godwyd:

- Gofynnir cwestiwn am apêl aflwyddiannus ar ddatblygiad tai ym Mangor. Pwy o'r Arolygaeth sy'n gwneud y penderfyniad ac os oes ffordd i'r Cynghorau cwestiynu'r penderfyniadau apeliadau?
- Cododd pryder am yr effaith gronnol ar yr Iaith Gymraeg gyda'r datblygiadau tai ym Mangor.

Ymateb:

- Yr Arolygydd Cynllunio sydd wedi ei benodi i glywed yr apêl sy'n gwneud y penderfyniad drwy ddefnyddio'r polisïau o Gynllun Datblygu cyfredol. Eglurwyd fod y sefyllfa gyda'r apêl yn ymwneud a chodi 366 o dai ym Mhenyffridd, Bangor yn sefyllfa unigryw. Roedd y tir wedi ei ddynodi ar gyfer tai yn yr hen Gynllun Datblygu Unedol (Gwynedd) pan gyflwynwyd y cais, ond pan benderfynwyd yr apêl roedd y cyd-destun polisi cynllunio wedi newid gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi disodli'r hen Gynllunio Datblygu Unedol. Roedd y strategaeth tai yn Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn hollol wahanol ac nid oedd safle Penyffridd wedi ei ddynodi ar gyfer tai gyda llawer o'r safle erbyn hyn wedi ei leoli tu allan i'r ffin datblygu. Ar ben hyn roedd y Cynllun yn cyflwyno polisi PS1 oedd yn ymwneud a sut i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg gyda datblygiadau perthnasol. Gwrthodwyd yr apêl ar sail diffyg tystiolaeth ynglŷn a'r effaith ar iaith Gymraeg ac am nad oedd y datblygiad yn cydfynd a'r polisïau tai perthnasol. Hwn yn benderfyniad arwyddocaol o ran y defnydd o bolisi PS1 a cadernid strategaeth y Cynllun.
- Eglurodd bod Bangor hefo rôl isranbarthol yn ardal y Cynllun felly fan hyn a bod yna dystiolaeth o'r angen am dai, ond bod y strategaeth tai o ran Bangor wedi symud i ffwrdd o ddynodi datblygiadau mawr ar un neu ddau o safleoedd. Nodwyd hefyd fod y Canllaw Cynllunio Atodol, Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy, sydd wedi ei fabwysiadu'n ddiweddar yn rhoi arweiniad manwl i sicrhau ystyriaeth briodol o'r iaith Gymraeg pan yn berthnasol.

**<u>Penderfyniad</u> - Derbyn yr argymhelliad i dderbyn ymateb i argymhellion yn deillio allan o adroddiad yr ymchwiliad Craffu ar Gynllunio a'r Iaith Gymraeg.**

DRAFT

## Adran A: Gwarchod Cyfleusterau Cymunedol

### 2.1 Cyflwyniad cyfleusterau cymunedol

2.1.1 Gellir diffinio cyfleusterau cymunedol fel adnodd sydd yn darparu ystod o wasanaethau (cyhoeddus, preifat ynghyd a gwirfoddol) ac sydd yn bwysig ar gyfer dibenion iechyd, hamdden, cymdeithasol ac addysgol. Fe allem gynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, darpariaeth gofal iechyd, theatrau, neuaddau bentref, mynwentydd, addoldai, tafarndai ac unrhyw gyfleuster arall sy'n cyflawni rôl o wasanaethu'r gymuned. Mae cyfleusterau cymunedol yn aml yn gallu bod yn ganolbwynt cymdeithasol a chan hynny yn chwarae rôl hanfodol er mwyn cynnal cymdogaeth lewyrchus ac yn creu naws am le. Mae sicrhau fod yna ystod o gyfleusterau cymunedol mewn lleoliadau hygyrch yn hanfodol er mwyn sicrhau fod anghenion cymdeithasol, hamdden, addysgol a diwylliannol cymdeithas yn cael ei ddiwallu yn y modd mwyaf effeithiol bosib.

2.1.2 Ystyrir fod gwarchod rhwydwaith o gyfleusterau cymunedol yn fodd o sicrhau fod datblygiad yn cael ei dywys i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy gan leihau'r angen i deithio a sicrhau fod cyfleusterau hygyrch a chyfleus ar gael i bawb. Ymhellach, mewn ardaloedd gwledig, mae gwarchod cyfleusterau yn fodd o gynnal bywyd cymdeithasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn gyffredinol, mewn ardaloedd gwledig mae'r cyfleusterau cymunedol yn gwasanaethu'r boblogaeth leol. Mewn aneddleoedd ble fo yna ddiffyg lleoliad cymunedol (er enghraifft neuadd bentref neu dafarn) ar gael i ymgynnull mae'n debyg y gallai hynny effeithio ar gydlyniad cymdeithasol traddodiadol.

### 2.2 Cyd-destun Polisi Cynllun Cenedlaethol a Lleol

#### Cyd-destun polisi cenedlaethol

2.2.1 Mae arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â chyfleusterau cymunedol wedi gosod allan ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, 2018). Cydnabyddir yr arweinid polisi cynllunio cenedlaethol fod gan gyfleusterau cymunedol rôl allweddol i'w chwarae er mwyn creu lleoedd hyfyw a chynaliadwy. Yn unol â pharagraff 4.4.2 o BCC fe ddylai'r Awdurdodau Cynllunio Lleol ddatblygu dull strategol a hir dymor o gynnal cyfleusterau cymunedol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu. Bydd angen fod yn ystyriol o anghenion cymunedau gan sicrhau fod yr adnodd yn parhau i ddiwallu'r angen sydd wedi ei hadnabod.

| | |
|---|---|
| • bod tystiolaeth o ymdrechion gwirioneddol i farchnata'r cyfleuster, sydd wedi bod yn aflwyddiannus. | arbenigwr ariannol neu gyfrifydd. Ymhellach fe ddylai'r bwriad gydymffurfio gyda'r dystiolaeth a fyddai angen ei gyflwyno er mwyn diwallu maen prawf 2i a 2ii o Bolisi ISA2 (fel nodir uchod). |

DRAFFT

## Adran B: Gwarchod Safleoedd Cyflogaeth

### 3.1 Gwarchod Unedau Cyflogaeth

3.1.1 Mae'r safleoedd cyflogaeth sydd yn cael eu dynodi a'u gwarchod o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn seiliedig ar dystiolaeth o'r angen (Astudiaeth Cyflogaeth, 2012). Y safleoedd hynny sydd wedi cael ei hadnabod o fewn y portffolio o safleoedd cyflogaeth yw'r rhai a ystyrir i fod ar gael ar gyfer dibenion cyflogaeth o fewn oes y Cynllun (hyd at 2026). Maent wedi cael ei hasesu o ran eu hargaeledd ynghyd a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy, h.y. a ydynt yn hygyrch i ddulliau amgen o deithio. Ymhellach ystyrir fod angen y safleoedd hyn er mwyn diwallu'r galw am safleoedd cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun. Er mwyn cyfyngu ar y bygythiad o golli'r safleoedd ar gyfer defnyddiau amgen mae'r Cynllun yn gwarchod safleoedd cyflogaeth ar gyfer defnyddiau yn Nosbarth Defnydd B1, B2 ac B8 yn unig (ynghyd a rhai 'defnyddiau unigryw' addas).

3.1.2 Mae'r rhan yma o'r CCA yn rhoi arweiniad ar ystyriaethau yn gysylltiedig â cheisiadau sydd yn ymwneud a defnyddiau amgen o'r safleoedd cyflogaeth hynny sydd yn cael eu gwarchod/dynodi o fewn y Cynllun (Polisi CYF5). Mae colli safleoedd cyflogaeth i ddefnyddiau amgen yn fygythiad i un o brif amcanion y CDLl ar y Cyd o gefnogi twf ac adfywiad a fydd yn ei dro yn trawsnewid yr economi leol. Rhaid gan hynny ceisio sicrhau fod y polisïau a gynhwysir o fewn y CDLl ar y Cyd yn ddigon gwydn er mwyn gallu gwrthsefyll colli safleoedd cyflogaeth briodol ar draul yr economi leol.

3.1.3 Mae sicrhau rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ar gyfer ystod o ddefnyddiau cyflogaeth o ran maint, safon a lleoliad yn hanfodol er mwyn cwrdd ag anghenion busnesau presennol ynghyd a denu busnesau newydd i'r ardal, byddai hyn yn ei dro yn sicrhau llewyrch economaidd yr ardal.

### 3.2 Polisi Cynllunio Cenedlaethol

3.2.1 Nodir Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, Rhagfyr 2018) fod angen i awdurdodau cynllunio roi eu cefnogaeth i ddarparu digon o dir gwyrdd er mwyn cwrdd ag anghenion y farchnad gyflogaeth ar lefel strategol a lleol. Mae'n ofynnol fod cynlluniau datblygu yn adnabod y galw ar gyfer dir cyflogaeth ac yn gwarchod a dynodi cymysgedd priodol o safleoedd i ateb y galw. Ymhellach nodir yr angen i lunio fframwaith ar gyfer diogelu safleoedd cyflogaeth. Pwysleisir

DRAFT

ar yr angen i safleoedd sydd wedi ei ddynodi/gwarchod fod yn cael eu diogelu rhag datblygiad amhriodol.

3.2.2 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23 (NCT): ‘Datblygu Economaidd’ yn cefnogi’r egwyddorion sydd wedi cael ei osod allan ym Mholisi Cynllunio Cymru ac yn cynghori y dylid osgoi rhyddhau tir cyflogaeth ar gyfer dibenion eraill lle mae yna dystiolaeth gref o angen y ddarpariaeth o dir cyflogaeth. Mae NCT23 yn cynnwys cyfres o feini prawf a ddylid eu defnyddio wrth ystyried ceisiadau ar gyfer rhyddhau tir cyflogaeth ar gyfer dibenion amgen. Mae’r meini prawf hyn yn cael ei ail-adrodd ym Mholisi CYF5 o’r CDLl ar y Cyd.

## 3.3 Polisi Cynllunio Lleol – Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

3.3.1 O fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, mae Polisi CYF 1 ‘Gwarchod, Dynodi ac Amddiffyn Tir ac Unedau ar gyfer Defnydd Cyflogaeth’ yn adnabod safleoedd penodol sydd angen eu gwarchod ar gyfer defnydd cyflogaeth/busnes. Mae’r safleoedd sydd yn cael ei warchod yn cael ei hadnabod ar fapiau cynigion y Cynllun. Mae Polisi CYF 3 ‘Defnyddiau Ategol ar Safleoedd Cyflogaeth’ yn gwarchod defnyddiau safleoedd cyflogaeth ar gyfer dibenion cyflogaeth/busnes yn unig ac yn nodi mae’r unig adeg y gellir ystyried defnyddiau amgen yw pan fo hynny ar gyfer defnydd sydd yn benodol ategol a defnyddiau cyflogaeth. Ymhellach mae Polisi CYF 5 ‘Defnyddiau Amgen o Safleoedd Cyflogaeth Bresennol’ yn rhoddi’r arweiniad o ran yr egwyddorion a ddylid eu hystyried yn gysylltiedig â newid defnydd safleoedd cyflogaeth ar gyfer defnyddiau amgen.

## 3.4 Diffinio Safleoedd Cyflogaeth

3.4.1 Fe ddiffinnir safleoedd cyflogaeth fel safleoedd sydd wedi eu gwarchod ar gyfer defnyddiau yn nosbarth defnydd canlynol yn unol â’r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 1990:-

B1 Busnes

B2 Diwydiant cyffredinol

B8 Storio a Dosbarthu

3.4.2 Ymhellach fe allai rhai mathau o ddefnyddiau a fyddai’n cael eu diffinio fel rhai ‘defnydd unigryw’ fod yn addas ar safleoedd cyflogaeth (yn unol â Pholisi PS13). Diffinnir defnyddiau ‘defnydd unigryw’ fel rhai sydd ddim yn disgyn o fewn unrhyw un o’r dosbarthiadau defnydd



DRAFT

eraill ac sydd gan hynny angen derbyn hawl cynllunio ar gyfer y defnydd hwnnw. Mae enghreifftiau o ddefnyddiau ‘defnydd unigryw’ a allai fod yn addas ar safleoedd cyflogaeth yn cynnwys:-

- Garej atgyweirio ceir
- Masnachwyr nwyddau adeiladu
- Cwmni hurio offer/cyfarpar
- Swyddfa hurio tacsi/bws mini/ hurio ceir
  *Nodir nad yw'r rhestr uchod yn ddiffiniol, mae yna fathau eraill o ‘ddefnyddiau unigryw’ na enwir uchod a allai fod yn addas ar safle cyflogaeth. Fe fydd ceisiadau unigol ar gyfer y mathau hyn o ddefnyddiau yn cael eu hasesu ar eu haeddiant eu hunain.

**3.5 Portffolio o Safleoedd Cyflogaeth**

3.5.1 O fewn y CDLl ar y Cyd mae’r portffolio o safleoedd cyflogaeth wedi cael eu rhannu fyny yn unol â pha mor ddeniadol yw’r safleoedd a’r tebygrwydd fod y safleoedd yn mynd i ddod yn eu blaen yn y tymor byr. Dosbarthir y safleoedd fel Prif Safleoedd, Safleoedd Eilaidd a Safleoedd Wrth Gefn. Mae’r hierarchaeth o safleoedd cyflogaeth hyn hefyd yn seiliedig ar y math o fusnesau sydd yn debygol o gael eu lleoli yn y safleoedd gyda’r haen uchaf (prif safleoedd) yn cynnwys safleoedd a ystyrir i fod yn rhai sydd o bwysigrwydd rhanbarthol neu yn isranbarthol.

Mae’r hierarchaeth o safleoedd cyflogaeth fel a chanlyn:-

| | |
|---|---|
| Prif Safleoedd | Safleoedd sydd yn debygol o fod yn fwy deniadol i’r farchnad ac yn debygol o gael eu datblygu yn y tymor byr. Mae’r safleoedd hyn wedi eu lleoli yn bennaf yn yr ardaloedd mwyaf cynaliadwy, yn unol â’r strategaeth ofodol a chanddynt fynediad i wasanaethau cymunedol, yn ogystal â chysylltiadau cludiant cyhoeddus. |
| Safleoedd Eilaidd | Safleoedd sydd ddim yn y lleoliadau mwyaf deniadol o ran mynediad a phresenoldeb y farchnad mewn cymhariaeth a’r prif safleoedd. Fodd bynnag, maent yn cynnig cyfleoedd pwysig sy’n cyfarch galw lleol ynghyd a’r galw posib a fydd yn deillio o Raglen Ynys Ynni Môn / Ynys Fenter. Mae’r safleoedd hyn wedi eu lleoli yn bennaf yn yr aneddleoedd mwyaf cynaliadwy, yn unol â’r |



DRAFT

| | |
|---|---|
| | strategaeth ofodol a chanddynt fynediad i wasanaethau cymunedol, cyfleusterau yn ogystal â chysylltiadau cludiant cynaliadwy. |
| Safleoedd wrth gefn | Safleoedd sydd a'r potensial i ddiwallu'r galw a fyddai'n deillio o Wylfa Newydd ynghyd a gweddill Rhaglen Ynys Ynni Môn/Ynys Fenter. |

**3.6 Defnyddiau Ategol o Safleoedd Cyflogaeth**

3.6.1 Mae Polisi CYF3: 'Defnyddiau Ategol o Safleoedd Cyflogaeth' yn nodi'r ystyriaethau yn gysylltiedig â rhyddhau safleoedd cyflogaeth ar gyfer defnyddiau sydd yn ategol i'r safle cyflogaeth. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yn unig y gellir ystyried ceisiadau i ryddhau safleoedd cyflogaeth a hynny cyn belled fod yna gyfiawnhad ar ei gyfer. Mae defnyddiau ategol yn ymwneud a rhai sydd yn cyd-fynd gydag anghenion y defnydd ar y safle. Mae'r mathau o ddefnyddiau sydd yn cael ei gyfeirio ato yn yr eglurhad i'r polisi yn cynnwys caffi a meithrinfa plant.

3.6.2 Wrth ystyried ceisiadau ar gyfer defnydd ategol fe fydd rhaid rhoi ystyriaeth i'r angen ar gyfer y bwriad ynghyd a sicrhau ei fod yn gymesur a beth fyddai anghenion y gweithlu ar y safle cyflogaeth. Hynny yw, ni ddylai'r bwriad ddarparu gwasanaeth ar gyfer marchnad sydd wedi ei leoli neu sydd yn gweithredu y tu allan i'r safle cyflogaeth. Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o ofynion y meini prawf hynny a gynhwysir ym Mholisi CYF 3:-

| **Maen prawf** | **Eglurhad** |
|---|---|
| 1. Fod yna gyfiawnhad gorbwysol ar gyfer y cyfleuster. | Bydd angen cyflwyno gwybodaeth ynglŷn ag anghenion a gofynion y gweithlu.<br><br>Oes yna fanteision amgylcheddol amlwg o gael y cyfleuster ar y safle, hynny yw a fyddai'n atal y gweithlu rhag gorfod teithio i leoliad arall yn rheolaidd er mwyn cael mynediad i'r un cyfleuster. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| 2. Bod graddfa'r datblygiad yn cyd-fynd yn bennaf ag angen y gweithle ar y safle cyflogaeth. | Dylid cyflwyno gwybodaeth o ran y nifer o bobl sydd yn gweithio ar y safle cyflogaeth gan sicrhau fod y bwriad yn cyfateb a'r angen ar gyfer y gweithlu hynny.<br><br>Ymhellach dylid cyflwyno gwybodaeth o ran y farchnad mae'r cyfleuster yn bwriadu ei dargedu a bod yna gysylltiad amlwg rhwng y bwriad a'r gweithlu. |
| 3. Na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn tanseilio ynddo'i hun neu'n gronnol swyddogaeth y safle cyflogaeth. | Sicrhau fod graddfa'r bwriad yn briodol a bod yr hyn a fydd yn cael ei ddarparu ynghyd a'r defnyddiau eraill sydd yn bodoli eisoes ar y safle ddim yn cael effaith andwyol ar swyddogaeth y safle cyflogaeth. |
| 4. Na fyddai'r datblygiad yn arwain tuag at tan-ddarpariaeth o dir cyflogaeth defnydd B1, B2 neu B8. | Bydd angen profi fod yna ddigon o ddarpariaeth o dir cyflogaeth drwy gynnal arolwg o'r safle cyflogaeth er mwyn adnabod y ddarpariaeth bresennol o safleoedd cyflogaeth. Gellir dibynnu ar y wybodaeth a ddeillir o'r Arolwg Cyflogaeth fwyaf diweddar er mwyn cael gwybodaeth o ran y ddarpariaeth bresennol. |

**3.7 Defnyddiau Amgen o Safleoedd Cyflogaeth**

3.7.1 Mae polisi CYF5: 'Defnyddiau amgen o safleoedd cyflogaeth bresennol' yn nodi'r ystyriaethau yn gysylltiedig â rhyddhau safleoedd cyflogaeth bresennol ar gyfer defnyddiau amgen. Mae'r meini prawf sydd angen cydymffurfio a hwy (un neu fwy ohonynt) yn cyd-fynd gyda'r ystyriaethau fel sydd yn cael ei nodi yn Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd, para 4.6.9.

3.7.2 Mae'r meini prawf ac eglurhad pellach yn gysylltiedig â'r maen prawf hyn fel a chanlyn:-



DRAFT

| **Maen prawf** | **Eglurhad** |
|---|---|
| 1. Yn yr achos fod y safle yn wag ei fod yn annhebygol o gael ei ddefnyddio yn y tymor byr a chanolig ar gyfer y defnydd gwreiddiol neu ddefnydd y warchodaeth | Dylid profi fod safleoedd gwag yn annhebygol o ddod yn ei flaen yn y tymor byr a chanolig drwy gyflwyno gwerthusiad manwl o ddichonoldeb y safle ar gyfer defnydd cyflogaeth.<br><br>Wrth gynnal asesiad manwl fe ddylid ystyried opsiynau amgen arall addas ar y safle a fyddai'n cynnwys ail ddatblygu'r safle ar gyfer dibenion cyflogaeth.<br><br>Disgwylir i'r ymgeiswyr ddangos yn glir bod y safle wedi ei farchnata ar werth neu rent am bris rhesymol. Dylid profi fod yr uned wedi cael ei farchnata am gyfnod parhaus o leiaf 12 mis. Bydd angen cyflwyno datganiad yn cwmpasu manylion yr ymdrechion sydd wedi ei wneud i farchnata'r uned. Dylai unrhyw ddeunydd sydd yn gysylltiedig â marchnata'r safle ddatgan yn glir fod yr uned yn cael ei farchnata ar gyfer dibenion cyflogaeth, ymhellach (ble'n briodol) fe ddylai'r deunydd marchnata nodi os oes yna gyfleoedd i ail-ddatblygu'r safle. Bydd y wybodaeth a gyflwynir angen cynnwys:-<br><br>• Tystiolaeth o farchnata eang at ddibenion cyflogaeth trwy asiant sy'n arbenigo mewn marchnata eiddo masnachol. Dylid nodi unrhyw newidiadau ym mhris marchnata a wnaed yn ystod y cyfnod marchnata. Bydd y Cyngor yn disgwyl tystiolaeth bod y safle wedi ei farchnata am bris teg ac yn cyd-fynd ag eiddo masnachol arall tebyg o ran math yn yr ardal. |

DRAFT

- Hysbysebion yn y wasg leol a rhanbarthol, y wasg eiddo a phapurau masnach arbenigol, trwy gydol y cyfnod marchnata.
- Tystiolaeth fod yr eiddo wedi cael ei farchnata'n barhaus ar wefan yr asiant;
- Hysbysebu parhaus ac amlwg ar y safle. Dylai bwrdd hysbysebu'r asiant gael ei osod ar bob ochr flaen i'r eiddo sy'n wynebu'r brifford trwy gydol y cyfnod marchnata;
- Dosbarthu manylion o'r dechrau i asiantau eiddo eraill, asiantau masnachol arbenigol a'r Cyngor drwy gyfrwng ymgyrch bostio a/neu gopïau o fanylion y gwerthiant, a'u dosbarthu drachefn os oes unrhyw fanylion sylweddol yn newid;
- Tystiolaeth o bob datganiad o ddiddordeb/cynnig a dderbyniwyd; ac
- Tystiolaeth o ymdrech gwirioneddol i farchnata a bod ystyriaeth wedi ei roi i ddulliau marchnata angen pan fo'r ymdrechion presennol yn amlwg yn methu/yn ddiffygiol.

Wrth ystyried ceisiadau sydd yn ceisio profi nad oes yna angen bellach ar gyfer y safle cyflogaeth fe fydd ymholiadau yn cael ei wneud gydag Adrannau Datblygu Economaidd y Cynghorau er mwyn canfod y nifer o ymholiadau sydd yn cael ei dderbyn ar gyfer safle cyflogaeth o fewn ardal benodol fel modd o asesu'r galw lleol am safleoedd cyflogaeth. Nodir mai ymholiadau ar gyfer safleoedd sydd ym mherchnogaeth y Cynghorau fydd y rhain.

DRAFT

3.7.3 Disgwylir y bydd unrhyw gais a fyddai'n golygu colli safle cyflogaeth sydd wedi ei warchod yn cael ei gefnogi gan ddatganiad cefnogol manwl. Disgwylir i'r wybodaeth/manylion a gyflwynir fod yn gymesur a'r bwriad.

**3.8 Diwallu'r meini prawf**

3.8.1 Fel nodir ym Mholisi CYF5 - 'un neu fwy' o'r meini prawf fel y rhestrir sydd angen ei ddiwallu wrth ystyried ceisiadau ar gyfer defnyddiau amgen o safleoedd cyflogaeth.

3.8.2 Mae'r portffolio o safleoedd cyflogaeth a warchodir ym Mholisi CYF1 wedi cael ei gategoreiddio yn unol â'r math o fusnesau sydd yn debygol o gael eu lleoli yn y safleoedd gyda'r haen uchaf (prif safleoedd) yn cynnwys safleoedd a ystyrir i fod yn rhai sydd o bwysigrwydd rhanbarthol neu yn isranbarthol. Nodir y disgwylir i gais ar gyfer defnydd amgen ar safle sydd wedi ei ddynodi/warchod fel 'Prif Safle Cyflogaeth' ddiwallu'r mwyafrif o'r meini prawf a restrir fel yn briodol o fewn y polisi gan mae'r rhain yw'r safleoedd a ystyrir i fod y rhai mwyaf deniadol a chan hynny fe fyddai angen derbyn cyfiawnhad grymus cyn gellir rhoddir ystyriaeth bellach i geisiadau ar gyfer defnyddiau amgen ar y safleoedd hyn.

DRAFT

## Adran C: Gwarchod Defnyddiau Manwerthu

**4.1 Gwarchod defnyddiau manwerthu**

4.1 Mae canol trefi llewyrchus yn hwb i'r economi leol yn ogystal â bod yn ganolbwynt cymunedol. Gan hynny, mae'n bwysig fod yna fframwaith cynllunio sy'n diogelu rôl ein canolfannau trefol ac sy'n hwyluso cynlluniau yn gysylltiedig â gwella hyfywedd y canolfannau hynny.

**4.2 Arweiniad Polisi Cynllunio Cenedlaethol**

4.1.1 Cynhwysir arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â manwerthu ym Mhennod 4 (Datblygiad Manwerthu a Masnachol) o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, 2018). Mae'r arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol yn nodi'r angen i sicrhau fod yna ddarpariaeth manwerthu sydd yn hygyrch, effeithlon, cystadleuol ac arloesol. Ymhellach, nodir yr angen i geisio hybu canol trefi sefydledig fel y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer manwerthu sydd yn ei dro yn cefnogi cymunedau a chanolfannau presennol. Mae'r amcanion cenedlaethol yn ceisio gwella bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd trefol, canolfannau lleol a hybu mynediad cynaliadwy i'r canolfannau hyn drwy gludiant cyhoeddus, cerdded a seiclo. Wrth ystyried datblygiadau mewn canol trefi, rhaid sicrhau ei bod yn gyfleus ac yn hawdd i'w cyrraedd, hefyd rhaid penderfynu os oes galw am ddatblygiadau o'r fath.

4.1.2 Y Nodyn Cyngor Technegol (NCT) perthnasol sydd yn ymwneud a manwerthu yw NCT4 (Manwerthu a Chanol Trefi, 2016). Prif amcan NCT6 yw hyrwyddo canolfannau manwerthu trefol hyfyw, fel y lleoliadau mwyaf addas i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a chynnal busnes. Ymhellach nodir yr angen i gynnal a gwella'r bywiogrwydd, hyfywdra ac atyniadol canol trefi.

**4.3 Arweiniad Polisi Cynllunio Lleol**

4.3.1 Un o brif amcanion y Cynllun yw gwarchod hyfywdra a bywiogrwydd canol trefi drwy wrthsefyll datblygiadau sy'n atal hynny.

4.3.2 Yn unol â Pholisi MAN 1 (Datblygiadau Arfaethedig mewn Canol Trefi) bydd cynigion o fewn canol trefi yn cael ei gwrthod oni bai fod y bwriad yn cydymffurfio a'r meini prawf fel rhestrir o fewn y polisi. Ymhellach mae Polisi MAN 2 (Prif Ardaloedd Manwerthu) yn nodi'r angen i

DRAFT

wrthsefyll colli defnyddiau siopa o fewn y brif ardal siopa oni bai fod y bwriad hynny yn cydymffurfio a'r meini prawf a restrir o fewn y polisi penodol hynny.

**4.4 Prif Ardal Siopa**

4.4.1 Mae Polisi MAN 2 (Prif Ardaloedd Manwerthu (Y Craidd Manwerthu)) yn gwarchod defnyddiad manwerthu o fewn y brif ardal siopa ar gyfer y defnydd penodol hynny (defnydd A1). Mae yna brif ardal siopa wedi ei hadnabod yn y Canolfan Fanwerthu Isranbarthol ynghyd a'r Canolfannau Fanwerthu Lleol sef Bangor, Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli, Caergybi a Llangefni. Mae'r ardaloedd hyn yn cael eu dangos ar y mapiau cynigion perthnasol.

4.4.2 Mae'r polisi yn nodi fod posib rhoddi ystyriaeth i newid defnydd llawr gwaelod eiddo a leolir o fewn y brif ardal siopa o ddefnydd A1 i ddefnydd arall cyn belled fod y bwriad yn cydymffurfio a'r ddau faen prawf a restrir o fewn y polisi. Mae'r meini prawf a'r wybodaeth sydd angen ei gyflwyno er mwyn diwallu'r maen prawf fel a chanlyn:-

| Maen prawf | Esboniad |
|---|---|
| Maen prawf 1: *"Y gellir dangos nad yw'r eiddo yn hyfyw mwyach ar gyfer defnydd A1 ac y gwnaed pob ymdrech i gynnal y defnydd A1 yn yr eiddo, ond heb lwyddiant trwy ei farchnata am bris rhesymol ar y farchnad am gyfnod o chwe mis o leiaf."* | Er mwyn diwallu'r maen prawf hyn fe ddylid cyflwyno Datganiad Marchnata. Dylai'r datganiad hyn gynnwys:-<br><br>• Manylion yr ymdrechion sydd wedi ei wneud i farchnata'r uned. Dylai unrhyw ddeunydd sydd yn gysylltiedig â marchnata'r safle ddatgan yn glir fod yr uned yn cael ei farchnata ar gyfer defnydd manwerthu.<br>• Tystiolaeth o farchnata eang at ddibenion manwerthu (A1) trwy asiant sy'n arbenigo mewn marchnata eiddo masnachol. Dylid nodi unrhyw newidiadau ym mhris marchnata a wnaed yn ystod y cyfnod marchnata. Bydd y Cyngor yn disgwyl tystiolaeth bod y safle wedi ei farchnata |

| | |
|---|---|
| | am bris teg ac yn cyd-fynd ag eiddo masnachol arall tebyg o ran math yn yr ardal.<br>• Hysbysebion yn y wasg leol a rhanbarthol, y wasg eiddo a phapurau masnach arbenigol, trwy gydol y cyfnod marchnata.<br>• Tystiolaeth fod yr eiddo wedi cael ei farchnata'n barhaus ar wefan yr asiant;<br>• Hysbysebu parhaus ac amlwg ar y safle. Dylai bwrdd hysbysebu'r asiant gael ei osod ar bob ochr flaen i'r eiddo sy'n wynebu'r briffordd trwy gydol y cyfnod marchnata;<br>• Dosbarthu manylion o'r dechrau i asiantau eiddo eraill, asiantau masnachol arbenigol a'r Cyngor drwy gyfrwng ymgyrch bostio a/neu gopïau o fanylion y gwerthiant, a'u dosbarthu drachefn os oes unrhyw fanylion sylweddol yn newid;<br>• Tystiolaeth o bob datganiad o ddiddordeb/cynnig a dderbyniwyd; ac<br>• Tystiolaeth o ymdrech gwirioneddol i farchnata a bod ystyriaeth wedi ei roi i ddulliau marchnata amgen pan fo'r ymdrechion presennol yn amlwg yn methu/yn ddiffygiol.<br><br>Ymhellach fe ddylid cyflwyno Asesiad Hyfywdra Ariannol sydd yn profi fod y busnes ar ei ffurf bresennol yn methu a chan hynny ei bod hi ddim yn ariannol hyfyw i barhau gyda'r fenter. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Maen prawf 2: *"Nad yw'r newid defnydd arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar swyddogaeth fanwerthu neu gymeriad y brif ardal fanwerthu, neu ei atyniad, bywiogrwydd a hyfywdra."* | Nod y maen brawf yma yw ceisio gwarchod swyddogaeth a chymeriad manwerthu ein prif ardaloedd siopa o fewn y canolfannau manwerthu. Wrth ystyried ceisiadau ar gyfer colli defnydd manwerthu fe ddylid ystyried y canlynol:-<br>• Ydi'r uned wedi ei leoli mewn man gweledol? Er enghraifft, ardal o werth pensaernïol sydd mewn lleoliad amlwg/canolog o ran ei osodiad o fewn yr ardal siopa.<br>• Esblygiad a rôl yr ardal manwerthu dros y blynyddoedd.<br>• Effaith y defnydd arfaethedig ar ddefnyddiau eraill cyfagos. Oes yna wrthdaro posib? Effaith ar fwynderau defnyddwyr eiddo cyfagos. |

**4.5 Canol Trefi**

4.5.1 Wrth ystyried ceisiadau ar gyfer newid defnydd unedau a leolir o fewn y ffin datblygu fe fydd angen bod yn ystyriol o'r arweiniad polisi a gynhwysir ym Mholisi MAN 3 (Manwerthu Tu Allan i Ganol Trefi Diffiniedig Ond Oddi Mewn i Ffiniau Datblygu). Mae'r meini prawf a gynhwysir o fewn y polisi, mewn perthynas â cholli defnydd manwerthu a'r wybodaeth angenrheidiol i ddiwallu'r maen prawf hynny fel a chanlyn:-

| **Maen prawf** | **Esboniad** |
|---|---|
| Maen prawf 1: *"Mae gwasanaeth tebyg ar gael o fewn pellter cerdded rhesymol."* | Dylai'r gwasanaeth tebyg fod o fewn taith gerdded resymol a diogel. Ystyrir yn briodol ystyried y ffin ganol tref fel y daith cerdded |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | resymol ynghyd ac ardal sydd 800m[1] i ffwrdd o leoliad y cais |
| Maen prawf 2: *"Os nad oes gwasanaeth tebyg yn bresennol, bod yr eiddo wedi bod ar y farchnad am bris gwerthu neu bris rhent rhesymol am gyfnod parhaus o chwe mis".* | Dylai'r strategaeth farchnata a'r wybodaeth a ddylid ei gyflwyno fel rhan o'r ymarferiad hynny, gydymffurfio gyda'r arweiniad sydd wedi ei osod allan ym mhara 3.7.2 uchod. |
| Maen prawf 3: *"Na fydd y defnydd newydd yn cael effaith andwyol ar fwynderau defnyddiau cyfagos".* | Dylid ystyried egwyddor y maen brawf hyn yn unol â'r arweiniad a nodir ym Mholisi PCYFF 2 (Meini Prawf Datblygu). |

**4.6 Diogelu siopau mewn pentrefi**

4.6.1 Mae siopa pentref yn chwarae rôl hanfodol mewn diwallu anghenion dydd i ddydd trigolion y pentref hynny. Mae gwarchod y ddarpariaeth hon yn gallu lleihau ar yr angen i deithio ac yn helpu i gynnal cymunedau lleol. Mae Polisi MAN 4 (Diogelu Siopau a Thafarndai mewn Pentrefi) yn ceisio gwarchod siopa mewn pentrefi. Gofynnir fod unrhyw fwriad ar gyfer newid defnydd siop a leolir o fewn pentref yn diwallu **un** o'r meini prawf a gynhwysir o fewn y polisi.

| **Maen prawf** | **Esboniad** |
|---|---|
| Maen prawf 1: "Bod gwasanaeth tebyg ar gael o fewn pellter cerdded rhesymol." | Er mwyn diwallu'r maen prawf hyn fe ddylid dilyn yr arweiniad sydd wedi ei nodi yn 4.5.1 uchod. |
| Maen prawf 2: "Y gall yr ymgeisydd fodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol trwy ddangos nad yw'r defnydd cyfredol yn hyfyw yn ariannol | Er mwyn diwallu'r maen prawf hyn fe ddylid dilyn yr arweiniad sydd wedi ei nodi yn ** uchod. Nodir fodd bynnag yn unol â geiriad |

[1] Mae canllawiau 'Providing for Journeys on Foot[1]' gan The Institue of Highways and Transportation yn nodi mae'r pellter cerdded sydd yn dderbyniol i'w gerdded iddo ar gyfer defnydd canol tref yw 800m. Nodir gan hynny y dylid defnyddio'r arweiniad hyn wrth ystyried y pellter cerdded rhesymol wrth ystyried os yw bwriad yn dderbyniol yn unol â maen prawf 1 o'r polisi. http://tranterconsultores.com/wp-content/uploads/2016/10/PROVEYENDO-A-PEATONES.pdf



DRAFT

| | |
|---|---|
| mwyach, drwy roi'r eiddo ar y farchnad am bris gwerthu neu bris rhent rhesymol am gyfnod parhaus o ddeuddeg mis a hynny heb unrhyw lwyddiant." | y polisi fod angen sicrhau fod yr ymarferiad marchnata wedi digwydd am gyfnod o 12 mis. |

DRAFFT

